BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# DATGANIAD ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP29

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Crynodeb Gweithredol**

i. Mae'r papur cefndir hwn yn rhoi manylion am barhau gyda dynodiad a pholisi Arfordir Treftadaeth Morgannwg (ATM) o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036.

ii. Dynodwyd yr ATM i gychwyn ar ddechrau'r 1970au ac mae'n cwmpasu tua 14 milltir (22.5 cilomedr) o arfordir sy'n ymestyn o Borthcawl yn y gorllewin i Silstwn yn y dwyrain ac yn rhychwantu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg yn y drefn honno.

iii. Mae'r dynodiad ATM yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethol yr ardal fel ardal o arfordir deniadol heb ei datblygu ac yn ceisio sicrhau bod cymeriad arbennig a harddwch naturiol yr arfordir yn cael eu gwarchod a'u gwella tra'n galluogi a chyfoethogi mwynhad ohono a hwyluso ei ddefnydd parhaus ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau economaidd sefydledig a phriodol eraill.

iv. Yn wreiddiol yn un o dri phrosiect peilot arfordir treftadaeth yn y Deyrnas Unedig, mae arfordiroedd treftadaeth wedi ymsefydlu ledled y DU fel arfordiroedd pwysig yn genedlaethol sy'n haeddu gwarchodaeth arbennig ac mae'r ATM bellach yn un o 14 arfordir treftadaeth yng Nghymru sy'n cwmpasu tua 42% o arfordir Cymru ac un o 43 o amgylch y Deyrnas Unedig.

v. Er nad oes gan eu statws fel arfordiroedd treftadaeth unrhyw amddiffyniad cyfreithiol, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried y dynodiadau wrth wneud penderfyniadau datblygu ac mae PCC yn nodi y dylai cynigion datblygu anelu at amddiffyn neu wella cymeriad a thirwedd naturiol neu hanesyddol arfordiroedd sydd heb eu datblygu.

vi. Ers ei ddynodi ym 1974, mae cynlluniau rheoli datblygu amrywiol, gan gynnwys cynlluniau arfordirol cynnar a Chynlluniau Strwythur Sir i Gynlluniau Datblygu Lleol yn fwy diweddar, wedi cefnogi egwyddor yr ATM ac wedi cynnwys polisïau sy'n diogelu a gwarchod y nodweddion arbennig, y cafodd ei ddynodi ar eu cyfer yn wreiddiol.

vii. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei chynnal yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021 - 2036 gyda'r polisi DNP3 – Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

